# Interim Policy for Prosecutors in respect of Cases of Assisted Suicide

Issued by

The Director of Public Prosecutions

September 2009

## CYFLWYNIAD

1 Mae unigolyn yn troseddu os yw ef neu hi yn helpu, cefnogi, cynghori neu gaffael [a gyfeirir ato yn y polisi hwn fel cynorthwyo"] hunanladdiad unigolyn arall, neu ymgais ar hunanladdiad gan unigolyn arall. Rhaid cael caniatâd y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus [CEC] cyn y gellir erlyn unigolyn.

2 Tra gall y CEC gyhoeddi polisi i sefydlu'r ffactorau y bydd yn ystyried wrth benderfynu p'un ai i erlyn mewn achosion unigol, dim ond y Senedd all newid y gyfraith ar hunanladdiad â chymorth. Ni all y CEC roi sicrwydd i rywun o flaen llaw i droseddu na fydd yn cael ei erlyn, ac ni ddylid tybio bod unrhyw ran o'r polisi hwn yn cyfateb i sicrwydd o'r fath.

3 Ni fu erioed yn rheol y byddai'r gred y cyflawnwyd trosedd yn arwain yn awtomatig at erlyniad. Sefydlir y modd mae erlynwyr ym mhob achos yn dod i benderfyniad ar p'un ai i erlyn neu beidio yn y Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron. Fodd bynnag, mae'r llysoedd wedi penderfynu y dylai erlynwyr dderbyn canllaw pellach yn sefydlu ffactorau atodol allai fod yn berthnasol wrth benderfynu p'un a oes angen er lles y cyhoedd i erlyn mewn achos o hunanladdiad â chymorth.

4 I berwyl y polisi hwn, defnyddir y term "dioddefwr" i ddisgrifio'r unigolyn a allai fod wedi cyflawni neu ymgeisio i gyflawni hunanladdiad. Ni fydd pawb o'r farn ei fod yn ddisgrifiad priodol, ond yng nghyd-destun cyfraith trosedd, mae'n debyg mai dyma'r term mwyaf addas i'w ddefnyddio.

5 Mae'r polisi hwn yn berthnasol pan gyflawnir y gweithredoedd yr honnir i fod yn gynhorthwy yng Nghymru a Lloegr; gall yr hunanladdiad neu ymgais i gyflawni hunanladdiad ddigwydd yn unrhyw ran o'r byd, yn cynnwys yng Nghymru a Lloegr.

## YR YMCHWILIAD

6 Mae'r heddlu'n gyfrifol am ymchwilio pob achos o hunanladdiad â chymorth, ac fe'i hanogir i ofyn am gyngor erlynwyr yn gynnar yn y broses a thrwy gydol eu hymholiadau i sicrhau y dilynwyd pob trywydd priodol o ymchwiliad. Dim ond pan fydd ganddynt yr holl ddeunydd perthnasol sydd o fewn rheswm i'w gasglu ac wedi ymchwiliad llawn a thrylwyr y gall erlynwyr ddod i benderfyniad.

## Y BROSES O WNEUD PENDERFYNIAD

7 Bydd erlynwyr yn gweithredu'r Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron wrth wneud penderfyniadau: rhaid bod digon o dystiolaeth i greu disgwyliad realistig y gellir sicrhau euogfarn parthed trosedd o hunanladdiad â chymorth. Os oes digon o dystiolaeth, dylai erlynwyr ystyried p'un a oes angen erlyniad er lles y cyhoedd.

8 Mae'r ffactorau a ystyrir wrth bennu p'un a oes angen erlyniad er lles y cyhoedd hefyd yn pennu p'un a fydd y CEC yn rhoi caniatâd i erlyn.

## Y CAM TYSTIOLAETHOL

9 Mae unigolyn yn cyflawni'r drosedd o hunanladdiad â chymorth os bydd ef neu hi yn helpu, cefnogi, cynghori neu gaffael hunanladdiad unigolyn arall, neu ymgais gan unigolyn arall i gyflawn hunanladdiad.

10 Er mwyn bodloni'r cam tystiolaethol, bydd rhaid i'r erlyniad brofi bod:

- y dioddefwr wedi cyflawni neu ymgeisio i gyflawni hunanladdiad; a
- bod yr un a ddrwgdybir wedi eu cynorthwyo i wneud hynny.

11 Mae'n rhaid i'r erlyniad hefyd brofi fod yr un a ddrwgdybir wedi bwriadu cynorthwyo'r dioddefwr i gyflawni neu ymgeisio i gyflawni hunanladdiad a bod yr un a ddrwgdybir yn gwybod y gallai'r gweithredoedd hynny gynorthwyo'r dioddefwr i gyflawni hunanladdiad.

12 Mae'r weithred o hunanladdiad yn ei gwneud yn ofynnol i'r dioddefwr gymryd ei fywyd ef neu hi ei hun. Mae achosi marwolaeth rhywun sy'n dymuno cyflawni hunanladdiad ond nad yw'n gallu gwneud hynny drosto efo neu hi ei hun yn parhau i fod yn llofruddiaeth neu ddynladdiad. Ni fydd hyd yn oed mynegiant didwyll a chlir o fwriad gan rywun sy'n dymuno diweddu ei fywyd neu ei bywyd yn rhoi'r hawl i rywun arall, hyn yn oed os ydynt yn gweithredu'n gyfan gwbl drugarog, gyflawni'r dymuniad hwnnw os yw'r unigolyn sydd eisiau cyflawni hunanladdiad yn cysgu neu'n anymwybodol.

13 Mae ymdrechu i gynorthwyo hunanladdiad yn bosibiliad y darperir ar ei gyfer yn y gyfraith. Golyga hyn y gallai fod yn drosedd hyd yn oed lle na cheir hunanladdiad neu lle nad oes ymgais i gyflawni hunanladdiad. Bydd p'un a oes digon o dystiolaeth o ymgais i gynorthwyo hunanladdiad yn ddibynnol ar amgylchiadau ffeithiol yr achos hwnnw.

## Y CAM LLES Y CYHOEDD

14 Rhaid i erlynwyr ystyried ffactorau lles y cyhoedd a sefydlir yn y Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron a'r ffactorau a sefydlir yn y polisi hwn.

15 Mae mwy i benderfynu ar les y cyhoedd na dim ond cyfrif y nifer o ffactorau ar bob ochr a gweld pa un sydd â'r nifer fwyaf. Rhaid ystyried pob achos yn ôl ei ffeithiau a rhinweddau ei hun. Rhaid i erlynwyr benderfynu ar bwysigrwydd pob ffactor lles y cyhoedd yn amgylchiadau pob achos a mynd ymlaen i wneud asesiad cyffredinol. Mae'n ddigon posibl y gallai un ffactor unigol gario mwy o bwysau na nifer o ffactorau eraill sy'n ffafrio'r trywydd arall.

16 Ymddengys rhai o'r ffactorau lles y cyhoedd a sefydlir isod yn y ddwy restr, gan fod eu presenoldeb neu absenoldeb naill ai'n ffactor o blaid neu yn erbyn erlyniad, y mae'n rhaid ei ystyried ym mhob achos. Mae eraill naill ai ddim ond yn ffactor naill o blaid neu yn erbyn erlyniad ac felly dim ond yn y rhestr briodol maent yn ymddangos.

17 Mewn ambell achos, gall fod mai'r unig ffynhonnell o wybodaeth am amgylchiadau'r hunanladdiad a chyflwr meddwl y dioddefwr yw'r un a ddrwgdybir. Dylai erlynwyr ac

ymchwilwyr sicrhau eu bod yn mynd ar drywydd pob llwybr ymholiad pellach rhesymol er mwyn cael gwiriad annibynnol o ddisgrifiad yr un a ddrwgdybir, ble bynnag fo'n bosibl.

18 Wedi cwblhau pob ymholiad rhesymol, os yw'r erlynwyr yn amau disgrifiad yr un a ddrwgdybir o amgylchiadau'r hunanladdiad a chyflwr meddwl y dioddefwr sy'n berthnasol i unrhyw ffactor a sefydlir isod, dylent gasglu nad oes ganddynt ddigon o wybodaeth sy'n gefnogol i'r ffactor honno.

**Ffactorau lles y cyhoedd o blaid erlyn**

19 Sefydlir y ffactorau lles y cyhoedd o blaid erlyn isod.

(1) Roedd y dioddefwr dan 18 oed.

(2) Roedd gallu'r dioddefwr i wneud penderfyniad gwybodus wedi'i effeithio'n andwyol gan salwch meddyliol neu anhawster dysgu cydnabyddedig.

(3) Nid oedd gan y dioddefwr ddymuniad clir, sefydlog na gwybodus o'r dymuniad i gyflawni hunanladdiad; er enghraifft, awgryma hanes y dioddefwr fod ei ddymuniad ef neu hi i gyflawni hunanladdiad yn un dros dro neu'n debygol o newid.

(4) Ni fynegodd y dioddefwr ddymuniad diamwys i'r un a ddrwgdybir ei fod ef neu hi eisiau cyflawni hunanladdiad.

(5) Ni ofynnodd y dioddefwr yn bersonol ar ei fenter ei hun am gynhorthwy'r un a ddrwgdybir.

(6) Nid oedd gan y dioddefwr:

- salwch marwol; neu
- anabledd corfforol difrifol ac anwelladwy; neu
- gyflwr corfforol dirywiol difrifol;

nad oedd posibiliad y byddai'n gwella ohono.

(7) Nid oedd cymhelliant yr un a ddrwgdybir yn gwbl drugarog, er enghraifft, roedd yr un a ddrwgdybir wedi ei ysgogi gan y disgwyliad y byddai ef neu hi neu unigolyn gyda chysylltiad agos ag ef neu hi yn elwa mewn rhyw fodd o farwolaeth y dioddefwr.

(8) Roedd yr un a ddrwgdybir wedi darbwyllo, rhoi pwysau ar neu annog y dioddefwr i gyflawni hunanladdiad mewn modd maleisus, neu ddefnyddio dylanwad ar benderfyniad y dioddefwr i wneud hynny; ac ni chymrodd gamau rhesymol i sicrhau nad oedd unigolyn arall yn gwneud hynny.

(9) Roedd gan y dioddefwr y gallu corfforol i gyflawni'r weithred oedd yn gyfystyr â'r cynhorthwy ei hun.

(10) Nid oedd yr un a ddrwgdybir yn ŵr neu'n wraig, partner neu berthynas agos neu'n gyfaill personol agos i'r dioddefwr.

(11) Nid oedd y dioddefwr yn adnabod yr un a ddrwgdybir ac fe gynorthwyodd trwy ddarparu gwybodaeth benodol, er enghraifft trwy wefan neu gyhoeddiad, i'r dioddefwr i'w gynorthwyo ef neu hi i gyflawni hunanladdiad.

(12) Rhoddodd yr un a ddrwgdybir gymorth i fwy nag un dioddefwr nad oeddynt yn ymwybodol o'i gilydd.

(13) Derbyniodd yr un a ddrwgdybir dâl gan y dioddefwr neu rywun oedd yn agos i'r dioddefwr am gynorthwyo.

(14) Roedd yr un a ddrwgdybir yn derbyn tâl i ofalu am y dioddefwr mewn amgylchedd gofal/cartref nyrsio.

(15) Roedd yr un a ddrwgdybir yn ymwybodol fod y dioddefwr yn bwriadu cyflawni hunanladdiad mewn man cyhoeddus ble byddai'n rhesymol tybio y byddai'r cyhoedd yn bresennol.

(16) Roedd yr un a ddrwgdybir yn aelod o sefydliad neu grŵp sydd â'i brif bwrpas i ddarparu amgylchedd corfforol [p'un ai am dâl neu beidio] ble gall rhywun arall gyflawni hunanladdiad.

**Gofynna Cwestiwn 1, sy'n ymddangos ar ddiwedd y ddogfen hon, eich barn am y ffactorau lles y cyhoedd a nodwyd i fod o blaid erlyniad.**

**Gofynna Cwestiwn 2, sy'n ymddangos ar ddiwedd y ddogfen hon, eich barn am p'un a oes unrhyw ffactorau eraill ar les y cyhoedd yr ystyriwch i fod o blaid erlyniad.**

20 Gan amlaf, bydd ffactorau (1) i (8) uchod yn fwy dylanwadol na'r ffactorau eraill wrth benderfynu fod angen erlyniad er lles y cyhoedd.

**Gofynna Cwestiwn 3, sy'n ymddangos ar ddiwedd y ddogfen hon, eich barn am ffactorau lles y cyhoedd (1) i (8) a nodwyd i fod yn fwy dylanwadol na'r ffactorau eraill wrth bennu bod angen erlyniad er lles y cyhoedd.**

**Gofynna Cwestiwn 4, sy'n ymddangos ar ddiwedd y ddogfen hon, eich barn am p'un a oes unrhyw ffactorau lles y cyhoedd eraill y credwch ddylai fod yn fwy dylanwadol na'r ffactorau eraill wrth bennu bod angen erlyniad er lles y cyhoedd.**

**Ffactorau lles y cyhoedd yn erbyn erlyn**

21 Sefydlir y ffactorau lles y cyhoedd yn erbyn erlyn isod.

(1) Roedd gan y dioddefwr ddymuniad clir, sefydlog a gwybodus i gyflawni hunanladdiad.

(2) Fe fynegodd y dioddefwr ddymuniad diamwys i'r un a ddrwgdybir ei fod ef neu hi eisiau cyflawni hunanladdiad.

(3) Gofynnodd y dioddefwr yn bersonol ar ei fenter ei hun am gynhorthwy'r un a ddrwgdybir.

(4) Roedd gan y dioddefwr:

- salwch marwol; neu
- anabledd corfforol difrifol ac anwelladwy; neu
- gyflwr corfforol dirywiol difrifol;

nad oedd posibiliad y byddai'n gwella ohono.

(5) Roedd yr un a ddrwgdybir wedi ei ysgogi'n gyfan gwbl gan drugaredd.

(6) Roedd yr un a ddrwgdybir yn ŵr neu'n wraig, yn bartner neu'n berthynas agos neu'n gyfaill personol agos i'r dioddefwr, yng nghyd-destun perthynas hirdymor a chefnogol.

(7) Roedd gweithredoedd yr un a ddrwgdybir er yn ddigon i'w cynnwys o fewn y diffiniad o drosedd, o gymorth neu ddylanwad bychan yn unig, neu roedd y cynhorthwy a ddarparodd yr un a ddrwgdybir o ganlyniad i'w gyflogaeth gyfreithiol arferol ef neu hi.

(8) Nid oedd gan y dioddefwr y gallu corfforol i gyflawni'r weithred oedd yn gyfystyr â'r cynhorthwy ei hun.

(9) Roedd yr un a ddrwgdybir wedi ceisio darbwyllo'r dioddefwr i beidio cyflawni'r weithred a arweiniodd ato ef neu hi yn cyflawni hunanladdiad.

(10) Roedd y dioddefwr wedi ystyried dilyn opsiynau triniaeth a gofal cydnabyddedig o fewn rheswm.

(11) Roedd y dioddefwr eisoes wedi ymgeisio i gyflawni hunanladdiad ac yn debygol o wneud hynny eto.

(12) Gellir priodoli gweithredoedd yr un a ddrwgdybir fel cynhorthwy anfodlon yn wyneb dymuniad penderfynol ar ran y dioddefwr i gyflawni hunanladdiad.

(13) Fe gynorthwyodd yr un a ddrwgdybir yr heddlu'n llwyr yn eu hymholiadau i amgylchiadau'r hunanladdiad neu'r ymgais i gyflawni hunanladdiad neu ei ran ef neu hi mewn darparu cynhorthwy.

**Gofynna Cwestiwn 5, sy'n ymddangos ar ddiwedd y ddogfen hon, eich barn am y ffactorau lles y cyhoedd a nodwyd i fod yn erbyn erlyniad.**

**Gofynna Cwestiwn 6, sy'n ymddangos ar ddiwedd y ddogfen hon, eich barn am p'un a oes unrhyw ffactorau eraill ar les y cyhoedd yr ystyriwch i fod yn erbyn erlyniad.**

22 Gan amlaf, bydd ffactorau (1) i (7) uchod yn fwy dylanwadol na'r ffactorau eraill wrth benderfynu nad oes angen erlyniad er lles y cyhoedd.

**Gofynna Cwestiwn 7, sy'n ymddangos ar ddiwedd y ddogfen hon, eich barn am ffactorau lles y cyhoedd (1) i (7) a nodwyd i fod yn fwy dylanwadol na'r ffactorau eraill wrth bennu nad oes angen erlyniad er lles y cyhoedd.**

**Gofynna Cwestiwn 8, sy'n ymddangos ar ddiwedd y ddogfen hon, eich barn am p'un a oes unrhyw ffactorau lles y cyhoedd eraill y credwch ddylai fod yn fwy dylanwadol nag eraill wrth bennu nad oes angen erlyniad er lles y cyhoedd.**

23 Rhaid i'r dystiolaeth i gefnogi'r ffactorau hyn fod yn ddigon agos o ran amser i'r cynhorthwy i ganiatáu'r erlynydd i ddod i'r casgliad rhesymol fod y ffactorau'n dal yn weithredol ar y pryd. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar ddechrau cadwyn benodol o ddigwyddiadau a arweiniodd yn uniongyrchol at yr hunanladdiad neu'r ymgais i gyflawni hunanladdiad.

24 Nid yw'r rhestrau hyn o ffactorau lles y cyhoedd yn holl gynhwysol a rhaid ystyried pob achos yn ôl ei ffeithiau a rhinweddau ei hun.

## TREFNIADAU YMDRINIAETH

25 Yr Is-adran Troseddu Arbennig ym Mhencadlys y CPS sy'n delio ag achosion o hunanladdiad â chymorth. Mae Pennaeth yr Is-adran yn adrodd yn uniongyrchol i'r CEC.

26 Felly dylai unrhyw erlynydd tu allan i Is-adran Troseddu Arbennig y Pencadlys sy'n derbyn ymholiad neu achos yn ymwneud â chyhuddiad o hunanladdiad â chymorth sicrhau fod Pennaeth yr Is-adran Troseddu Arbennig wedi ei hysbysu.

27 Daw'r polisi interim i rym ar ddiwrnod ei gyhoeddi a dylid ei weithredu ym mhob achos presennol ac yn y dyfodol. Bydd yn cael ei arolygu yng ngoleuni ymarfer ymgynghori cyhoeddus sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd.

**Mae Cwestiwn 9, sy'n ymddangos ar ddiwedd y ddogfen hon, yn eich gwahodd i gyflwyno unrhyw sylwadau yr hoffech i ni eu hystyried.**

## CWESTIYNAU YMGYNGHOROL

**Cwblhewch yr wybodaeth ganlynol os gwelwch yn dda.**

| | |
|---|---|
| **Sut yr hoffech i ni eich cyfarch: Mr/Mrs/Ms ac ati** | |
| **Enw Cyntaf** | |
| **Cyfenw** | |
| **Unrhyw sefydliad yr ydych yn cynrychioli** | |
| **Cyfeiriad Post** | |
| **Rhif ffôn cyswllt** | |
| **Cyfeiriad e-bost** | |

**CWESTIWN 1**

**Rydym wedi nodi'r ffactorau yr ystyriwn i fod yn berthnasol wrth benderfynu p'un a oes angen erlyniad er lles y cyhoedd ym mharagraff 19. Rydym yn cyflwyno'r ffactorau hynny unwaith eto isod.**

**Gan ddefnyddio'r gwymplen, dynodwch p'un a ydych yn cytuno neu'n anghytuno ei fod yn ffactor o blaid erlyniad gyfochr i bob un.**

**Gallwch ateb yn defnyddio "Y" am ydi ac "N" am "Nac ydi"; os nad ydych eisiau i ni gael eich barn ar unrhyw ffactor benodol, yna gadewch y blwch perthnasol yn wag.**

| | **FFACTORAU O BLAID ERLYN** | **Y/N** |
|---|---|---|
| (1) | Roedd y dioddefwr dan 18 oed. | |
| (2) | Roedd gallu'r dioddefwr i wneud penderfyniad gwybodus wedi'i effeithio'n andwyol gan salwch meddyliol neu anhawster dysgu cydnabyddedig. | |
| (3) | Nid oedd gan y dioddefwr ddymuniad clir, sefydlog na gwybodus o'r dymuniad i gyflawni hunanladdiad; er enghraifft, awgryma hanes y dioddefwr fod ei ddymuniad ef neu hi i gyflawni hunanladdiad yn un dros dro neu'n debygol o newid. | |
| (4) | Ni fynegodd y dioddefwr ddymuniad diamwys i'r un a ddrwgdybir ei fod ef neu hi eisiau cyflawni hunanladdiad. | |
| (5) | Ni ofynnodd y dioddefwr yn bersonol ar ei fenter ei hun am gynhorthwy'r un a ddrwgdybir. | |

| | | |
|---|---|---|
| (6) | Nid oedd gan y dioddefwr:<br><br>➢ salwch marwol; neu<br>➢ anabledd corfforol difrifol ac anwelladwy; neu<br>➢ gyflwr corfforol dirywiol difrifol;<br><br>nad oedd posibiliad y byddai'n gwella ohono. | |
| (7) | Nid oedd cymhelliant yr un a ddrwgdybir yn gwbl drugarog, er enghraifft, roedd yr un a ddrwgdybir wedi ei ysgogi gan y disgwyliad y byddai ef neu hi neu unigolyn gyda chysylltiad agos ag ef neu hi yn elwa mewn rhyw fodd o farwolaeth y dioddefwr. | |
| (8) | Roedd yr un a ddrwgdybir wedi darbwyllo, rhoi pwysau ar neu annog y dioddefwr i gyflawni hunanladdiad mewn modd maleisus, neu ddefnyddio dylanwad ar benderfyniad y dioddefwr i wneud hynny; ac ni chymrodd gamau rhesymol i sicrhau nad oedd unigolyn arall yn gwneud hynny. | |
| (9) | Roedd gan y dioddefwr y gallu corfforol i gyflawni'r weithred oedd yn gyfystyr â'r cynhorthwy ei hun. | |
| (10) | Nid oedd yr un a ddrwgdybir yn ŵr neu'n wraig, partner neu berthynas agos neu'n gyfaill personol agos i'r dioddefwr. | |
| (11) | Nid oedd y dioddefwr yn adnabod yr un a ddrwgdybir ac fe gynorthwyodd trwy ddarparu gwybodaeth benodol, er enghraifft trwy wefan neu gyhoeddiad, i'r dioddefwr i'w gynorthwyo ef neu hi i gyflawni hunanladdiad. | |
| (12) | Rhoddodd yr un a ddrwgdybir gymorth i fwy nag un dioddefwr nad oeddynt yn ymwybodol o'i gilydd. | |
| (13) | Derbyniodd yr un a ddrwgdybir dâl gan y dioddefwr neu rywun oedd yn agos i'r dioddefwr am gynorthwyo. | |
| (14) | Roedd yr un a ddrwgdybir yn derbyn tâl i ofalu am y dioddefwr mewn amgylchedd gofal/cartref nyrsio. | |
| (15) | Roedd yr un a ddrwgdybir yn ymwybodol fod y dioddefwr yn bwriadu cyflawni hunanladdiad mewn man cyhoeddus ble byddai'n rhesymol tybio y byddai'r cyhoedd yn bresennol. | |
| (16) | Roedd yr un a ddrwgdybir yn aelod o sefydliad neu grŵp sydd â'i brif bwrpas i ddarparu amgylchedd corfforol [p'un ai am dâl neu beidio] ble gall rhywun arall gyflawni hunanladdiad. | |

**CWESTIWN 2**

| **OS CREDWCH FOD FFACTORAU ERAILL O BLAID ERLYNIAD, CYFLWYNWCH NHW YMA:** |
| --- |
| |

**CWESTIWN 3**

**Rydym wedi nod fod ffactorau (1) i (8) yn fwy dylanwadol na'r ffactorau eraill wrth benderfynu fod angen erlyniad er lles y cyhoedd. Rydym wedi cyflwyno'r ffactorau hynny unwaith eto isod.**

**Nodwch gyfochr i bob ffactor p'un a ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai'r ffactor fod yn fwy dylanwadol na'r ffactorau eraill.**

**Gallwch ateb yn defnyddio "Y" am ydi ac "N" am "Nac ydi"; os nad ydych eisiau i ni gael eich barn ar unrhyw ffactor benodol, yna gadewch y blwch perthnasol yn wag.**

| | **FFACTORAU O BLAID ERLYN** | **Y/N** |
|---|---|---|
| (1) | Roedd y dioddefwr dan 18 oed. | |
| (2) | Roedd gallu'r dioddefwr i wneud penderfyniad gwybodus wedi'i effeithio'n andwyol gan salwch meddyliol neu anhawster dysgu cydnabyddedig. | |
| (3) | Nid oedd gan y dioddefwr ddymuniad clir, sefydlog na gwybodus o'r dymuniad i gyflawni hunanladdiad; er enghraifft, awgryma hanes y dioddefwr fod ei ddymuniad ef neu hi i gyflawni hunanladdiad yn un dros dro neu'n debygol o newid. | |
| (4) | Ni fynegodd y dioddefwr ddymuniad diamwys i'r un a ddrwgdybir ei fod ef neu hi eisiau cyflawni hunanladdiad. | |
| (5) | Ni ofynnodd y dioddefwr yn bersonol ar ei fenter ei hun am gynhorthwy'r un a ddrwgdybir. | |
| (6) | Nid oedd gan y dioddefwr:<br><br>➢ salwch marwol; neu<br>➢ anabledd corfforol difrifol ac anwelladwy; neu<br>➢ gyflwr corfforol dirywiol difrifol;<br><br>nad oedd posibiliad y byddai'n gwella ohono. | |
| (7) | Nid oedd cymhelliant yr un a ddrwgdybir yn gwbl drugarog, er enghraifft, roedd yr un a ddrwgdybir wedi ei ysgogi gan y disgwyliad y byddai ef neu hi neu unigolyn gyda chysylltiad agos ag ef neu hi yn elwa mewn rhyw fodd o farwolaeth y dioddefwr. | |
| (8) | Roedd yr un a ddrwgdybir wedi darbwyllo, rhoi pwysau ar neu annog y dioddefwr i gyflawni hunanladdiad mewn modd maleisus, neu ddefnyddio dylanwad ar benderfyniad y dioddefwr i wneud hynny; ac ni chymrodd gamau rhesymol i sicrhau nad oedd unigolyn arall yn gwneud hynny. | |

**CWESTIWN 4**

**OS CREDWCH FOD FFACTORAU ERAILL Y DYLID EU CYNNWYS YN Y CATEGORI HWN NAD YDYM WEDI EU NODI, CYFLWYNWCH NHW YMA:**

**CWESTIWN 5**

**Rydym wedi nodi'r ffactorau yr ystyriwn i fod yn berthnasol wrth benderfynu nad oes angen erlyniad er lles y cyhoedd ym mharagraff 21. Rydym yn cyflwyno'r ffactorau hynny unwaith eto isod.**

**Nodwch gyfochr i bob ffactor p'un a ydych yn cytuno neu'n anghytuno ei fod yn ffactor yn erbyn erlyniad.**

**Gallwch ateb yn defnyddio "Y" am ydi ac "N" am "Nac ydi"; os nad ydych eisiau i ni gael eich barn ar unrhyw ffactor benodol, yna gadewch y blwch perthnasol yn wag.**

| | **FFACTORAU YN ERBYN ERLYN** | **Y/N** |
|---|---|---|
| (1) | Roedd gan y dioddefwr ddymuniad clir, sefydlog a gwybodus i gyflawni hunanladdiad. | |
| (2) | Fe fynegodd y dioddefwr ddymuniad diamwys i'r un a ddrwgdybir ei fod ef neu hi eisiau cyflawni hunanladdiad. | |
| (3) | Gofynnodd y dioddefwr yn bersonol ar ei fenter ei hun am gynhorthwy'r un a ddrwgdybir. | |
| (4) | Roedd gan y dioddefwr:<br><br>➢ salwch marwol; neu<br>➢ anabledd corfforol difrifol ac anwelladwy; neu<br>➢ gyflwr corfforol dirywiol difrifol;<br><br>nad oedd posibiliad y byddai'n gwella ohono. | |
| (5) | Roedd yr un a ddrwgdybir wedi ei ysgogi'n gyfan gwbl gan drugaredd. | |
| (6) | Roedd yr un a ddrwgdybir yn ŵr neu'n wraig, yn bartner neu'n berthynas agos neu'n gyfaill personol agos i'r dioddefwr, yng nghyd-destun perthynas hirdymor a chefnogol. | |
| (7) | Roedd gweithredoedd yr un a ddrwgdybir er yn ddigon i'w cynnwys o fewn y diffiniad o drosedd, o gymorth neu ddylanwad bychan yn unig, neu roedd y cynhorthwy a ddarparodd yr un a ddrwgdybir o ganlyniad i'w gyflogaeth gyfreithiol arferol ef neu hi. | |
| (8) | Nid oedd gan y dioddefwr y gallu corfforol i gyflawni'r weithred oedd yn gyfystyr â'r cynhorthwy ei hun. | |
| (9) | Roedd yr un a ddrwgdybir wedi ceisio darbwyllo'r dioddefwr i beidio cyflawni'r weithred a arweiniodd ato ef neu hi yn cyflawni hunanladdiad. | |

| | | |
|---|---|---|
| (10) | Roedd y dioddefwr wedi ystyried dilyn opsiynau triniaeth a gofal cydnabyddedig o fewn rheswm. | |
| (11) | Roedd y dioddefwr eisoes wedi ymgeisio i gyflawni hunanladdiad ac yn debygol o wneud hynny eto. | |
| (12) | Gellir priodoli gweithredoedd yr un a ddrwgdybir fel cynhorthwy anfodlon yn wyneb dymuniad penderfynol ar ran y dioddefwr i gyflawni hunanladdiad. | |
| (13) | Fe gynorthwyodd yr un a ddrwgdybir yr heddlu'n llwyr yn eu hymholiadau i amgylchiadau'r hunanladdiad neu'r ymgais i gyflawni hunanladdiad neu ei ran ef neu hi mewn darparu cynhorthwy. | |

**CWESTIWN 6**

**OS CREDWCH FOD FFACTORAU ERAILL YN ERBYN ERLYNIAD, CYFLWYNWCH NHW YMA:**

**CWESTIWN 7**

**Rydym wedi nodi fod ffactorau (1) i (7) yn fwy dylanwadol na'r ffactorau eraill wrth benderfynu nad yw erlyniad er lles y cyhoedd. Rydym wedi cyflwyno'r ffactorau hynny unwaith eto isod.**

**Nodwch gyfochr i bob ffactor p'un a ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai'r ffactor fod yn fwy dylanwadol na'r ffactorau eraill.**

**Gallwch ateb gan ddefnyddio "Y" am ydi ac "N" am "Nac ydi"; os nad ydych eisiau i ni gael eich barn ar unrhyw ffactor benodol, yna gadewch y blwch perthnasol yn wag.**

| | **FFACTORAU YN ERBYN ERLYN** | **Y/N** |
|---|---|---|
| (1) | Roedd gan y dioddefwr ddymuniad clir, sefydlog a gwybodus i gyflawni hunanladdiad. | |
| (2) | Fe fynegodd y dioddefwr ddymuniad diamwys i'r un a ddrwgdybir ei fod ef neu hi eisiau cyflawni hunanladdiad. | |
| (3) | Gofynnodd y dioddefwr yn bersonol ar ei fenter ei hun am gynhorthwy'r un a ddrwgdybir. | |
| (4) | Roedd gan y dioddefwr:<br><br>➢ salwch marwol; neu<br>➢ anabledd corfforol difrifol ac anwelladwy; neu<br>➢ gyflwr corfforol dirywiol difrifol;<br><br>nad oedd posibiliad y byddai'n gwella ohono. | |
| (5) | Roedd yr un a ddrwgdybir wedi ei ysgogi'n gyfan gwbl gan drugaredd. | |
| (6) | Roedd yr un a ddrwgdybir yn ŵr neu'n wraig, yn bartner neu'n berthynas agos neu'n gyfaill personol agos i'r dioddefwr, yng nghyd-destun perthynas hirdymor a chefnogol. | |
| (7) | Roedd gweithredoedd yr un a ddrwgdybir er yn ddigon i'w cynnwys o fewn y diffiniad o drosedd, o gymorth neu ddylanwad bychan yn unig, neu roedd y cynhorthwy a ddarparodd yr un a ddrwgdybir o ganlyniad i'w gyflogaeth gyfreithiol arferol ef neu hi. | |

**CWESTIWN 8**

**OS CREDWCH FOD FFACTORAU ERAILL Y DYLID EU CYNNWYS YN Y CATEGORI HWN NAD YDYM WEDI EU NODI, CYFLWYNWCH NHW YMA:**

**CWESTIWN 9**

**RHOWCH WYBOD I NI OS OES GENNYCH UNRHYW SYLWADAU ERAILL YR HOFFECH I NI EU HYSTYRIED:**

This is a public document.
It is available on the CPS website: www.cps.gov.uk
Further copies of this document may be obtained from:
CPS Policy Directorate
50 Ludgate Hill
London EC4M 7EX
Telephone: 020 7796 8000
Email: hqpolicy@cps.gsi.gov.uk

© Crown Copyright 2009